7-9 Oed

# Dysgu fel teulu

Mae pob math o ffyrdd hwyliog i ddysgu gartref. Dyma rai gemau a gweithgareddau gwych y gallwch chi eu gwneud. **Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael eich rhiant neu warcheidwad i gymryd rhan!**

## Siart cynilion a gwobrau

Gyda chymorth eich teulu, cytunwch ar rai tasgau y gallech eu gwneud i helpu o amgylch y tŷ, a nifer y pwyntiau y gallech eu hennill am gwblhau tasg. Gallech ennill 2 bwynt am dacluso eich teganau, neu 5 pwynt am helpu i olchi'r llestri. Gyda chymorth rhiant neu warcheidwad, crëwch restr o wobrwyon y gallech eu cael, petaech chi'n ennill digon o bwyntiau. Efallai y gallech chi gael hufen iâ am 20 pwynt a thegan newydd am 100 pwynt? Bydd yn rhaid i chi benderfynu cynilo eich pwyntiau ar gyfer gwobrau mwy neu eu defnyddio'n syth ar gyfer rhywbeth llai.

## Bingo darnau arian

Bydd angen llawer o ddarnau 1c, 2c a 5c, papur a phensil. Rhwygwch neu torrwch y papur yn ddarnau bach ac ysgrifennwch swm sy'n llai na 10c ar bob darn. Plygwch y papur a'i roi mewn bocs neu jar. Bydd pob chwaraewr yn cymryd llond llaw o ddarnau arian i ddechrau. Mae'r galwr, yn cymryd un darn o bapur ar y tro ac yn darllen y swm yn uchel. Mae pob chwaraewr yn gorfod cyrraedd y swm hwnnw gyda'i ddarnau arian ac yna eu rhoi mewn pentwr o ddarnau a ddefnyddiwyd. Os na allwch chi gyrraedd y swm hwnnw gyda'ch darnau arian, bydd yn rhaid i chi aros tan y gelwir y swm y gallwch chi ei gyrraedd. Bydd y chwaraewr cyntaf i ddefnyddio ei ddarnau arian i gyd yn gweiddi BINGO ac yn ennill y gêm.

## Dadl dros swper

Math o sgwrs yw dadl. Mewn dadl bydd pobl yn trafod gwahanol safbwyntiau ar bynciau anodd. Nid oes ateb hawdd i bob pwnc, ac rydym yn dadlau i archwilio'r holl wahanol safbwyntiau. Pan fyddwn yn dadlau, byddwn yn clywed safbwyntiau gwahanol sy'n gallu ein helpu i ddod o hyd i ateb da i gwestiwn anodd. Gall amser swper fod yn amser da i feddwl am gwestiynau anodd gyda'ch teulu. Dyma rai cwestiynau anodd i chi roi cynnig arnynt:

- A ddylem ni roi arian at elusen yn hytrach na phrynu mwy o deganau?
- A yw'n bosib cael gormod o arian?
- A fyddai'n well pe byddai gan bawb yr un faint o arian?
- Beth yw'r swyddi gorau?
- A ddylem ni roi'r gorau i ddefnyddio arian a dim ond defnyddio cardiau?



SGWAD SAFIO DYLAN
DYLAN'S SAVING SQUAD

7-9 Oed

## 4 Darn arian mewn rhes

Byddwch chi angen darn o bapur, pensil, 21 o ddarnau arian 1c a 21 o ddarnau arian 2c. Gêm i ddau chwaraewr yw hon. Lluniwch grid gyda 7 colofn a 6 rhes. Dylai pob sgwâr yn y grid fod yn ddigon mawr i roi darn arian 2c ynddo. Mae un chwaraewr yn cael y darnau arian 1c ac mae'r llall yn cael y darnau arian 2c. Yn eich tro gosodwch un darn arian ar y grid, gan ddechrau o'r gwaelod. Ni chewch osod darnau arian yn arnofio yn yr awyr. Y chwaraewr cyntaf i gael 4 o'i ddarnau arian mewn rhes sy'n ennill.

## Gwaith elusennol

Mae llawer o elusennau yn gweithio i helpu i ddatrys problemau yn y byd. Mae rhai yn gweithio i amddiffyn anifeiliaid, rhai yn helpu plant, rhai yn ceisio ein cadw ni i gyd yn iach. Gelwir y rhain yn achosion. Mae gan bob un ohonom ddigon o egni, arian ac amser i helpu un neu ddau achos. Pa achosion sy'n bwysig i chi? Gyda chymorth eich rhiant neu warcheidwad, gwnewch ymchwil i ddod o hyd i elusennau sy'n eich ysbrydoli. Meddyliwch am ffyrdd y gallwch chi helpu. Mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn ceisio helpu i wneud y byd yn lle gwell. Mae gan rai elusennau syniadau da ar eu gwefannau am ffyrdd y gallwch chi eu helpu. Gallech chi drefnu digwyddiad i godi arian a rhoi'r arian hwnnw i elusen, gallech chi wirfoddoli neu gallwch chi helpu i godi ymwybyddiaeth o achos. Ceisiwch gael eich ffrindiau a'ch teulu i gymryd rhan a cheisiwch gael eich papur lleol i ysgrifennu am yr hyn yr ydych chi'n ei wneud. Mae yna lawer o syniadau da iawn ar-lein ond gwnewch yn siŵr eich bod yn cael eich rhiant neu warcheidwad i sicrhau bod yr hyn yr ydych yn ei wneud yn ddiogel.

## Siopwr defnyddiol

Gofynnwch i'ch rhiant neu warcheidwad os cewch chi helpu gyda'r siopa wythnosol. Helpwch i ysgrifennu rhestr siopa o'r holl bethau y mae arnoch chi eu hangen a'u heisiau. Ar ôl cyrraedd y siop, edrychwch ar y dewisiadau gwahanol sydd ar gael. Fel arfer mae o leiaf dau fath gwahanol o'r un cynnyrch. Mae angen i chi wneud penderfyniad rhwng y dewisiadau gwahanol. Pa un yw'r rhataf? Edrychwch ar y pecyn a chymharu'r meintiau a faint o'r cynnyrch a gewch chi am y pris. Gallai rhai eitemau fod yn organig, wedi eu cyrchu'n lleol neu yn rhai masnach deg. Efallai y bydd ganddyn nhw gynigion arbennig neu gystadlaethau i geisio'ch annog chi i'w prynu. Siaradwch â'ch rhiant neu warcheidwad am y dewis o gynnyrch gwahanol a chanfod sut y maen nhw'n dewis beth sydd orau i'w brynu. Gyda'ch gilydd, efallai y byddwch yn canfod dewisiadau eraill sydd o ansawdd gwell neu â phrisiau is.

## Busnes bach - siop artist

Pobl sy'n gwneud gwaith celf fel paentiadau neu ddarluniau yw artistiaid. Maen nhw'n gwerthu'r darnau hyn o gelf i bobl sydd eisiau eu harddangos, yn eu cartrefi. Weithiau maen nhw'n cael comisiynau. Dyma pryd y mae rhywun yn cynnig arian iddyn nhw i greu rhywbeth y maen nhw'n dymuno ei gael, fel llun ohonyn nhw eu hunain neu lun o'u teulu. Efallai y byddai eich teulu chi yn comisiynu darn o'ch gwaith celf? Gallech gynnig lluniau o bobl, eu teuluoedd neu eu hanifeiliaid anwes yn gyfnewid am arian. Bydd angen i chi greu un neu ddau o ddarluniau neu baentiadau enghreifftiol fel y gall pobl weld eich bod yn artist da. Yna bydd angen i chi greu poster er mwyn i bobl weld y gwasanaeth yr ydych chi'n ei gynnig.

**Diogelwch yn gyntaf!** Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth riant neu warcheidwad am y gemau a'r gweithgareddau yr ydych chi'n eu gwneud fel y gallan nhw sicrhau eich bod chi'n chwarae'n ddiogel.